# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH RHWNG GWEINIDOGION CYMRU A PHRIF WEITHREDWR CADW

**Cyflwyniad**

Cadw yw Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru. Mae’n un o isadrannau Lywodraeth Cymru ac yn atebol i'r Gweinidog(ion) perthnasol sy'n gyfrifol am dreftadaeth, sef y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar hyn o bryd.

Mae Cadw yn cael ei gefnogi gan Fwrdd sy'n cynnwys aelodau anweithredol sy'n cynghori, yn cefnogi, yn craffu ar ac yn monitro cyfeiriad strategol, cynllun busnes a safonau Cadw. Mae'r Bwrdd yn darparu cyngor ac arweiniad ac nid yw'n gorff gwneud penderfyniadau.

**Diben y memorandwm hwn**

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r meysydd rheoleiddio lle mae'n ofynnol i Cadw ddefnyddio annibyniaeth a barn broffesiynol.

**Swyddogaethau**

Ar ran Gweinidogion Cymru, mae gan Cadw nifer o gyfrifoldebau statudol, gan gynnwys cadwraeth a chynnal henebion sydd yng ngofal y wladwriaeth, a darparu mynediad cyhoeddus diogel atynt, ac mae'n darparu arweinyddiaeth ar gyfer sector yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Mae Cadw yn gyfrifol am oruchwylio'r fframwaith ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy ac mae'n cyflawni neu'n cefnogi ystod o swyddogaethau sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Mae hyn yn cynnwys nodi a dynodi asedau hanesyddol o bwys cenedlaethol, darparu cydsyniadau ar gyfer henebion cofrestredig, goruchwylio'r broses o arolygu cyflwr asedau dynodedig a darparu gwasanaethau cynghori statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio, esemptiadau eglwysig a chydsyniadau adeiladau rhestredig. Mae hefyd yn darparu argymhellion i Weinidogion Cymru o ran galw i mewn gydsyniadau adeiladau rhestredig, ac mae'n rheoli, yn cadw ac yn darparu mynediad cyhoeddus diogel i safleoedd hanesyddol sydd yng ngofal Gweinidogion Cymru.

**Deddfwriaeth**

Daeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("Deddf 2023") i rym yng Nghymru ym mis Tachwedd 2024, gan ddisodli Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae crynodeb o ddarpariaethau'r Ddeddf yn **Atodiad A.**

Os oes anghysondeb rhwng unrhyw un o ddarpariaethau'r ddogfen hon a darpariaethau deddfwriaeth cysylltiedig â Gweinidogion Cymru / Cadw y mae'r ddogfen hon yn ymwneud â nhw, darpariaethau'r ddeddfwriaeth fydd drechaf.

**Gweinidogion Cymru**

Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod pwysigrwydd annibyniaeth broffesiynol Cadw a'r farn y mae'n rhaid iddynt ei defnyddio.

Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod ystod o ddyletswyddau neu bwerau ar Weinidogion Cymru ond, fel arfer, staff Cadw sy'n gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd o dan egwyddor Carltona. Dyma egwyddor cyfraith weinyddol lle ceir cydnabyddiaeth gyfreithiol o'r angen ymarferol i staff (sy'n parhau i fod yn atebol i'r Gweinidog Cymru y maent yn ei wasanaethu) arfer swyddogaethau ar ran y Gweinidog Cymru y maent yn gweithio iddo.

Bydd penderfyniadau yn dibynnu'n benodol ar farn am y mater dan sylw a byddant yn benderfyniadau cytbwys, a fydd yn ystyried arbenigedd proffesiynol ac arbenigol, y ddeddfwriaeth berthnasol, meini prawf gwneud penderfyniadau perthnasol, canllawiau technegol ac arferion gorau cyhoeddedig ac unrhyw sylwadau a allai fod wedi'u gwneud.

Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw'r swyddogaethau isod ond, fel arfer, fe'u cyflawnir gan dimau arbenigol Cadw. Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn y dylai swyddogion perthnasol Cadw fod â'r gallu, y galluogrwydd a'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen i asesu, gwerthuso, gwneud penderfyniadau a gwneud sylwadau am y swyddogaethau sy'n rhan o Ddeddf 2023, yn enwedig y rhai a restrir isod, heb bwysau rhagfarnus na chyfyngiad amhriodol, gan ddefnyddio barn ofalus ynghylch a ddylid ceisio awdurdod gan y Gweinidog Cymru sy'n gyfrifol am Cadw.

**Ar gyfer y meysydd rheoleiddio isod, cytunir y gall staff Cadw, ar lefel sy'n briodol i'r swyddogaeth, fel arfer wneud penderfyniadau yn annibynnol ar Weinidogion Cymru**.

1. **Penderfyniadau dynodi** – mae Deddf 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflawni'r canlynol:

   - rhestru pob adeilad yng Nghymru sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn eu barn nhw.
   - cynnal rhestr o henebion yng Nghymru sydd o bwys cenedlaethol yn eu barn nhw.
   - cynnal cofrestr o barciau a gerddi yng Nghymru sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig yn eu barn nhw.

2. **Rheoli gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig (pennod 3-5 a 7 o Ran 2 o Ddeddf 2023)**. Gan gynnwys ystyried ceisiadau am gydsyniadau henebion cofrestredig, gan gynnwys eiddo hanesyddol sydd yng ngofal Gweinidogion Cymru; cytundebau partneriaeth henebion cofrestredig, cytundebau rheoli, rheolaethau gorfodi; a difrod i henebion, gwaith brys a phwerau mynediad.

3. **Adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig (adran 95 a 115 o Ran 3 o Ddeddf 2023) –** yn enwedig pwerau Gweinidogion Cymru i

gyfarwyddo awdurdod cynllunio nad yw'n ofynnol iddo hysbysu Gweinidogion Cymru cyn rhoi cydsyniad adeilad rhestredig, pwerau Gweinidogion Cymru i wneud cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig a'r pŵer i gyfarwyddo y dylai cais am gydsyniad adeilad rhestredig gael ei alw i mewn i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru ac, yn arbennig, rôl Cadw o ran argymell i Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru y dylid gwneud cyfarwyddyd o'r fath (a elwir yn "galw i mewn").

3. **Swyddogaethau cynllunio** – Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, drwy Cadw, ar gynigion datblygu penodol sy'n effeithio ar henebion cofrestredig, parciau hanesyddol cofrestredig, gerddi, tirweddau hanesyddol cofrestredig a Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u lleoliadau.

Mae Cadw hefyd yn ymgynghorai statudol ar Asesiadau Amgylcheddol Strategol ar gyfer cynlluniau datblygu lleol awdurdodau cynllunio, Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol a Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol lle gallai'r rheiny effeithio ar asedau hanesyddol neu eu lleoliad.

Gofynnir i Cadw gyflwyno sylwadau ar gyfer ceisiadau am Drwyddedau Morol ac unrhyw apêl sy'n cael ei wneud i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) o dan Ddeddf 2023 neu Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 os yw'r apêl yn effeithio ar ased hanesyddol neu ei leoliad. O ddiwedd 2025 ymlaen, gofynnir i Cadw hefyd ymateb i geisiadau am Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol a gyflwynir o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024.

Wrth fynd i'r afael â'r gwaith hwn, mae swyddogion Cadw yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth arbenigol i ddarparu cyngor gwrthrychol a phroffesiynol gymwys. Bydd Cod y Gwasanaeth Sifil yn berthnasol i holl aelodau staff Cadw, a chyfrifoldeb Prif Weithredwr Cadw fydd sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r Cod.

**Y cyfryngau / cyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â'r meysydd rheoleiddio uchod:**

Bydd Cadw a Gweinidogion Cymru yn gweithio i egwyddorion "dim byd annisgwyl" a thryloywder a byddant yn ceisio rhoi digon o rybudd a gwybodaeth i'w gilydd am unrhyw ddatganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau arfaethedig i'r cyhoedd y gallai'r naill fod am i'r llall wybod amdanynt, lle mae hyn yn bosibl.

Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg (y "Cyfarwyddwr Cyffredinol"), drwy'r Cyfarwyddwr Diwylliant, Treftadaeth, Chwaraeon a'r Gymraeg, yn gyfrifol am gefnogi Prif Weithredwr Cadw mewn perthynas â'r canlynol:

- sicrhau bod disgrifiadau swyddi ac arferion gweinyddol ehangach yn adlewyrchu'r gofynion am farn broffesiynol o'r safon uchaf, a'r annibyniaeth angenrheidiol i ffurfio barn o'r fath ac i siarad am y farn honno'n gyhoeddus (gan gynnwys ym Mhwyllgorau'r Senedd).
- adrodd o dan amodau eu rheolaeth olygyddol eu hunain.
- ac yn yr un modd, cyhoeddi datganiadau ategol i'r cyfryngau (yn amodol ar gyfyngiadau Cod y Gwasanaeth Sifil); ar y meysydd a nodir uchod.

**Adolygu**

Bydd y memorandwm hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Brif Weithredwr Cadw a bydd unrhyw argymhellion ar gyfer newid yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w hystyried.

Cytunwyd gan

JACK SARGEANT

-----------------------------------------------------------------------------

Ar ran Gweinidogion Cymru Dyddiad 11/08/2025

-----------------------------------------------------------------------------

Ar ran Cadw Dyddiad 11/08/2025